

CRYNODEB

Olion Iaith - Prosiect perfformiadol i archwilio dylanwad dwyieithrwydd a'r amgylchfyd ar hunaniaeth

Yn yr ymchwil perfformiadol hwn gyda help dau actor fe lwyfannais wers addysgol ar fy hanes i'n tyfu i fyny yn ddwyieithog a sut y cafodd hyn effaith arna i'n feddyliol a chorfforol. Yn y perfformiad rydw i'n trafod ychydig am hanes ieithyddol fy nheulu ar ochr fy mam a nhad cyn mynd ymlaen i ddewis rhai digwyddiadau allweddol ieithyddol fy mywyd wrth i mi dyfu i fyny. Er mwyn ceisio dangos ymgorfforiad ieithyddol o'r profiadau hyn roeddwn i'n gwisgo siwt wen ar ddiwedd pob cyfnod a chael yr actorion i beintio'r geiriau 'Saesneg' a 'Cymraeg' ar ddarnau o fy nghorff i symbylu sut effaith yr oedd y ddwy iaith yn ei gael ar wahanol adegau o fy mywyd. Fel ymchwil teimlaf fy mod i wedi gwneud perfformiad ar thema sydd yn rhan o brofiad dynol o fyw mewn cymdeithas ddwyieithog ac sydd yn berthnasol i hunaniaeth a diwylliant nifer fawr o bobl sydd yn byw yng Nghymru ac mewn gwledydd ar draws y byd. Yn yr adlewyrchiad feirniadol yma mi fyddaf yn ceisio rhoi fy meirniadaeth fy hun ar y broses o greu'r perfformiad yn ogystal â thrafod fy nylanwadau artistig a damcaniaethol er mwyn ceisio dangos bod fy mherfformiad i'n ddarn o ymchwil perfformiadol. Rydw i wedi rhannu'r traethawd i adrannau gwahanol sef:

- y syniadau cychwynnol o ddefnyddio iaith fel prif thema ar gyfer fy mherfformiad.
- y broses lle'r ydw i'n trafod hel gwybodaeth at ei gilydd i ddechrau creu'r sgript.
- y tair rhan i fy mhroses ddramateiddio sef defnydd o arddull addysgol, defnydd o'r corff a llunio'r gofod.
- y clo sydd yn cydblethu fy mhroses gwaith gan geisio gosod fy narn yn y maes perfformio.

Gweler yr atodiad ar gyfer y DVD a chopi o'r sgript gwreiddiol sydd yn cynnwys y lluniau yr oeddwn i'n eu taflunio yn y perfformiad.

OLION IAITH

Myfyrdod Beirniadol
gan Glesni Mair Edwards

PFM0660
MA Practising Performance
Prifysgol Aberystwyth
Chwefror 2010

CYNNWYS

Olion Iaith - Myfyrdod Beirniadol

Syniadau cychwynnol	4
Y broses	9
Arddull Addysgol	13
Y corff	16
Y gofod	23
Cydblethu a Chloi	27
Llyfryddiaeth	30

ATODIAD

Sgript Olion Iaith	36
Lluniau a daflunwyd yn y perfformiad	61

Syniadau Cychwynnol

Rydw i am ddechrau'r feirniadaeth ysgrifenedig hon drwy drafod fy syniadau cychwynnol o ymchwilio i mewn i un o'r themâu sydd fwyaf pwysig i mi fel Cymraes sef yr iaith Gymraeg. Roeddwn i eisiau chwilio am wybodaeth i geisio deall mwy am bŵer iaith a'r syniad hyn o iaith fel rhan annatod o hunaniaeth yr unigolyn a chymdeithas. Felly fe ddechreuais ymchwilio i mewn i iaith fel thema yn hytrach nag edrych ar iaith mewn ffordd lenyddol neu farddonol fel y mae'r artist Jenna Finch yn ei wneud yn ei gwaith perfformiadol.¹ Fe ddarllenais amryw o lyfrau a gwyllo a gwrando ar nifer o raglenni yn y llyfrgell Genedlaethol a oedd yn trafod pwysigrwydd, dirywiad ac adfywiad yr iaith Gymraeg a ieithoedd y byd. Yn nifer fawr o'r llyfrau a ddarllenais roeddent yn sôn fod yr iaith y mae pobl yn ei siarad yn rhan annatod o'u hunaniaeth diwylliannol a phersonol a drwy siarad iaith maent yn cael eu gwreiddio yn eu cymdeithas a'u gwlad. Fel y dywed Nettle a Romaine: 'To choose to use a language is an act of identity or belonging to a particular community.'²

Mae'r cyfarwyddwr Robert Wilson hefyd yn rhannu'r un farn am iaith ac mae nifer fawr o'i berfformiadau yn troi o amgylch iaith fel thema ac fel adnodd byw llythrennol. Mae'n credu wrth i ni ragdybio iaith fel rhywbeth problematig ein

¹ Gwefan Jenna, Finch, *Live/Performance Artist/Poet*.

² Nettle, a Romaine, *Vanishing Voices- The extinction of the world's languages*, 172.

bod ni'n rhagdybio ein hunain yn broblematic hefyd gan fod iaith yn rhan annatod ohonom. Dywed: 'Consequently, one's sense of self is tied to the language one uses to refer to self.'³

Teimlaf fod iaith yn chwarae rhan fawr yn y teimlad angerddol hwn y mae John Meirion Morris yn cyfeirio ato sef y dyhead " ...i fyw o safbwynt iaith a thraddodiad na allaf byth ei egluro."⁴ Fel y dywedais yn fy nghynnig i'r prosiect rydw i'n bersonol yn gallu uniaethu â hyn a chredaf fel y mae J.R.Jones, awdur y llyfr *Prydeindod*, yn ei honni fod iaith yn clymu pobl at ei gilydd a dyfynna'r awdur farn Fichte i bwysleisio hyn: "Clymwyd y rhai a sieryd yr un iaith â mil o glymau dirgel gan natur ei hunan...Y maent yn deall ei gilydd-yn gymundod cyfathreb-ac wrth natur, felly, yn un bychanfyd afranadwy".⁵ Credaf fod yr iaith Gymraeg wedi ei chlymu ei hun o gwmpas fy nghorff mewn ffordd na all neb, ddim hyd yn oed fy hunan ei datod ac hebddi credaf y buaswn i'n teimlo fel person hollol wahanol fel petai darn ohonof ar goll. Fel y dywedodd myfyriwr o goleg Gaeleg ar Ynys Skye yn y rhaglen ddogfen 'Colli iaith Agenda': 'A language is for self expression and for a Gael to reject Gaelic is for me to cut off my foot, it is so essential and so much a part of me'.⁶

³Holmberg, *The Theatre of Robert Wilson*, 63.

⁴Gwefan LLGC, John Meirion Morris, *Grymoedd*, 28 Chwefror-29 Mai 2009.

⁵Jones, *Prydeindod*, 11.

⁶*Colli iaith Agenda*, S4C, 1991.

Fe sonnir yn y llyfr *Vanishing Voices* am yr un math o broblemau yr oedd *Prydeindod* yn eu trafod, hynny yw os yw ieithoedd lleiafrifol fel Cymraeg yn marw ni fyddwn yn gwybod pwy ydym ac ymdoddi yn bobl wahanol a wnawn. Yn *Vanishing Voices* dyfynnir geirau Sir James Henare, arweinydd Maori a fu farw yn 1989: "The language is the life force of our Maori culture and *mana* ['power']. If the language dies, as some predict, what do we have left to us? Then, I ask our own people who are we?"⁷ Hefyd fe gyfeiria Nettle a Romaine yn hwyrach ymlaen yn y llyfr at y ddihareb *Gymraeg*: '*Gwlad neb[sic] iaith, gwlad heb galon*'.⁸

Mae Nettle a Romaine yn tanlinellu'r ffaith ei bod hi'n bwysig iawn gwarchod diwylliannau sy'n cael eu creu gan gymunedau lleiafrifol y byd a pharhau i'w cynnal trwy eu harferion cymdeithasol unigryw. Drwy gadw arferion traddodiadol y cymdeithasau hyn yn fyw mae hyn yn golygu y bydd aelodau o'r gymdeithas yn trosglwyddo arferion eu cymdeithas ar lafar ymlaen o genhedlaeth i genhedlaeth. Fel y dywed Robin Williams mewn darlith yn dwyn y teitl 'Iaith Mam': 'Nid creiriau oerion i'w cuddio mewn amgueddfa ydi geiriau ond bywyd cynnes o feddwl ac o fynegiant sydd yn dod allan o bobl mewn llais a goslef nid mewn llyfr ond mewn llafar yr ydych chi'n diogelu'r iaith ac yn fan yno mae hi'n cadw ei hegni.'⁹

⁷ Nettle a Romaine. *Vanishing Voices-The extinction of the world's languages*, 23.

⁸ Nettle a Romaine. *Vanishing Voices-The extinction of the world's languages*, 192.

⁹ Annwyl Gyfeillion, *Iaith Mam*, Radio Cymru, 1991.

Dywed Nettle a Romaine mai amrywiaeth ieithyddol y byd sy'n ein gwarchod ni rhag unffurfiaeth a gwallgofrwydd a'i fod yn rhan o gyfoeth creiddiol dynoliaeth.

Y cyfoeth ieithyddol hwn y mae Trevor Jamieson a Scott Rankintu yn ceisio codi ymwybyddiaeth ohono gyda'u prosiect trawsdirol a'u perfformiad gwobrwyol *Ngapartji Ngapartji*. Disgrifir y fenter hon gan Trevor Jamieson sef prif berfformiwr a chyd-gynlluniwr y darn theatr drwy ddweud ar y DVD sy'n cyflwyno y prosiect: '*Ngapartji Ngapartji* is about teaching people in the Cities around the country and over seas that we need to keep our languages strong and work together and start talking about this at a government level'.¹⁰

Ar ôl gwyllo DVD o'r perfformiad *Ngapartji Ngapartji*, teimlaf fod y perfformiad hwn wedi dysgu'r gynulleidfa fod amrywiaeth iaith a thraddodiadau diwylliannol yn rhywbeth gwerthfawr sydd yn cyfoethogi'r byd a dylem ei feithrin a'i annog yn hytrach na'i anwybyddu neu ei gymryd yn ganiataol. Rydw i'n edmygu yn fawr waith y prosiect *Ngapartji Ngapartji* ac yn gallu uniaethu gyda'u syniadau ac mae eu gwaith wedi ysbrydoli elfennau o fy mherfformiad innau. Ar ôl gwyllo'r perfformiad hwn a hel yr holl waith ymchwil am iaith at ei gilydd roedd gennyf fwy o syniad ynglŷn a'r math o gynnwys yr oeddwn i eisiau yn

¹⁰ *Ngapartji Ngapartji*- Project Video 2007.

fy mherfformiad. Fel Perfformiad *Ngarpartji Ngarpartji* roeddwn i eisiau dangos fod iaith yn bwysig i mi ac yn rhan annatod o fy hunaniaeth. Hefyd roeddwn i eisiau i'r gynulleidfa ddeall, er bod amgylchiadau cymdeithasol yn gallu cael effaith ar ddatblygiad ieithyddol unigolyn a'r gymuned, ei bod hi'n bosib i bobl fyw eu bywyd yn llawn yn ddwyieithog. Felly wrth feddwl sut oedd hi'n bosib dod â'r elfen ieithyddol â'r amgylchfyd at ei gilydd, fe ddechreuais feddwl am ddatblygiad a hanes iaith yn fy nheulu fy hun. Am y tro cyntaf, fe ddechreuais weld pa mor ddiddorol oedd hanes fy nheulu o ran defnydd o iaith a straeon ieithyddol yn ogystal â'r ffaith fy mod i wedi byw bywyd dwyieithog ers pan oeddwn i'n ddim o beth gan fod teulu fy nhad yn siarad Saesneg a theulu fy mam yn siarad Cymraeg.

Y Broses

Ar ôl meddwl am sail i fy mherfformiad fe ddechreuodd fy mhroses greu fel y mae Mike Pearson yn ei ddweud '...with a work of archaeology'.¹¹ Mae'r ffordd y mae Mike Pearson yn creu gwaith perfformiadol ar ei fywyd ei hun wedi bod yn hynod ddylanwadol arna i gan fy mod i'n teimlo fod ei waith yn cynnwys themâu sydd yn fy niddori ac yn berthnasol i fy ngwaith fy hunan sef hunaniaeth, lle a chof. Yn ogystal â hyn credaf fod fy mhroses gwaith wedi cael ei ddylanwadu gan elfennau o greadigaeth Mike Pearson a Michael Shanks sef *Theatre/Archaeology* gan fy mod i wedi bod yn chwilio mewn hen albymau am luniau difyr a chwilio am wrthrychau fel hen dapiau a oedd yn chwarae cerddoriaeth a oedd yn fy nghyfeirio'n ôl i amser arbennig wrth i mi dyfu. Roeddwn i hefyd wedi bod yn holi a thrafod straeon gyda aelodau o'r ddwy ochr i fy nheulu gan recordio rhai hanesion ar dâp. Wrth uno y deunyddiau hyn at ei gilydd er mwyn creu sgript roedd elfen gref arall o ddamcaniaeth Theatr Archeoleg yn dod i'r amlwg sef fy mod i am geisio creu perfformiad a oedd yn dangos treigladau amser ieithyddol fy nghorff ar adegau o fy mywyd o fy ngorffennol i'r presennol, hynny yw, mewn termau Archeoleg: '...work with material traces, with evidence, in order to create something - a meaning, a narrative, an image - which stands for the past in the present.'¹²

¹¹ Gol. Heathfield. *Small Acts: Performance, the Millennium and the Marking of Time*, 175.

¹² Pearson a Shanks, *Theatre/Archaeology*, 11.

Ar ddechrau fy mherfformiad fe benderfynais ddefnyddio'r wybodaeth a'r enghreifftiau iaith a gefais drwy sgwrsio gydag aelodau hŷn o'r teulu er mwyn rhoi ychydig o wreiddiau a hanes i fy mherfformiad. Wrth siarad am aelodau gwahanol o fy nheulu yn fy narn roeddwn i'n meddwl y buasai'n syniad da dangos llun ohonynt gan fy mod i'n meddwl y byddai hynny'n creu mwy o awyrgylch gan dynnu'r gynulleidfa i mewn i'r digwydd. Fel y mae Mieke Bal yn dweud:

'*Photograph offers an utterly rich sensuality, beyond synaesthetic*'.¹³ Dywed hefyd fod lluniau yn bethau sydd yn gallu procio'r cof ac fe hoffwn feddwl wrth i mi ddangos y lluniau a thrafod fy nheulu bod y gynulleidfa yn gallu uniaethu efallai gyda rhai o'r pethau yr ydw i'n ei ddweud wrth iddynt hel eu hatgofion eu hunain. Fel y dywed Pearson a Shanks: 'In looking at photographs and things found we make stories, relating our looking to our experience, to connections we see, imagine, establish and research.'¹⁴

I geisio dod â darnau o fy ngorffennol yn fwy byw i'r gynulleidfa fe benderfynais ail greu rhai straeon a oedd yn aros yn fy nghof ar ffurf sgetys byr gyda fy nau actor Caron a Sian. Yn y dyddlyfr *Performance Research: On memory* sonia Guy Undrill am y modd y mae Pierre Janet yn trafod y defnydd perfformiadol o gofio drwy ddweud: "memory is an action: essentially it is the telling of a story".¹⁵

¹³ Bal, "Memory Acts: Performing Subjectivity", 102.

¹⁴ Pearson a Shanks, *Theatre/ Archaeology*, 43.

¹⁵ Undrill, "Book Review", 134.

Drwy ychwanegu y sgetys byr hyn i'r straeon llafar roeddwn i'n gobeithio dod ag amrywiaeth i'r arddull o ddweud stori a oedd yn mynd â'r gynulleidfa yn ôl i fy ngorffennol fel ôl-fflach gan ddangos cymeriadau teuluol o fy mywyd a hefyd y gwahaniaethau ieithyddol drwy ddefnydd o'r llais. Gobeithiaf fod yr ôl-fflachiadau hyn yn mynd i sbarduno straeon personol o gof nifer o'r gynulleidfa. Credaf hefyd, gan fod yna elfen o actio ac ystumiau corfforol yn y sgetys, ei bod hi'n haws i'r gynulleidfa di-Gymraeg geisio uniaethu gyda'r straeon hyn o'u cymharu â'r straeon yr oeddwn yn eu dweud ar lafar. Cyfeiria Sarah Gorman at syniadaeth Susan Hayward o ystyr ôl-fflachiadau yn *Performance Research: On Memory*: '... flashbacks are closely alinged therefore with the working of the psyche and an individual's interpretation of history. Furthermore, because flashbacks almost always serve to resolve an enigma they are by nature investigative or confessional narrative codes which again brings them close to the process of psychoanalysis.'¹⁶ Rydw i'n cytuno gyda'r dyfyniad uchod gan fy mod i'n defnyddio y sgetys byr hyn fel enghreifftiau ymchwiliol er mwyn dangos yn gliriach rai sefyllfaoedd ieithyddol gwahanol sydd wedi cael effaith ar ddatblygiad fy iaith wrth i mi dyfu.

¹⁶ Gorman, "Archive Fever", 96.

Wrth ysgrifennu mwy o'r sgript, dechreuais greu patrwm i bob digwyddiad yr oeddwn i wedi ei ddewis e.e dangos llun, dweud hanes, dangos sgets, wedyn yn ôl i ddangos llun. Roedd rhyw fath o deimlad ymchwiliol gwyddonol fforensig bron â bod i'r hyn yr oeddwn i'n ceisio ei ddangos amdanaf fy hun i'r gynulleidfa. Oherwydd hyn, penderfynais arbrofi gyda'r syniad o addysg a fy mod i fel athrawes neu ddarlithwraig yn cyflwyno'r sgript fel darlith neu wers i'r gynulleidfa ar olion iaith yn fy mywyd hyd yn hyn. Roedd hyn yn ymdebygu i wers fywgraffiadol Mike Pearson yn 'Bubbling Tom' sydd yn cael ei ddisgrifio ganddo fel: '...a personal archaeology, which placed me at the centre of events, as both the narrator and the subject of narration, and which dramatised the "familiar past".'¹⁷

¹⁷ Gol. Heathfield. *Small Acts: Performance, the Millenium and the Marking of Time*, 176.

Arddull Addysgol

Mae nifer fawr o berfformwyr yn gwneud defnydd o arddull addysgol yn eu gwaith gan gynnwys *Forced entertainment*, *Wooster group*, *Stans Café* a *David Hewlett*.

Gwyliais berfformiad gan Davida Hewlett - *An End to Isolation-Level 1*¹⁸

ac roedd yn enghraifft berffaith o ddarlith berfformiadol. Roedd yr ystafell wedi cael ei gosod fel ystafell ddosbarth gyda'r gynulleidfa yn eistedd y tu ôl i fyrddau yn wynebu'r digwydd. Roedd Hewlett a oedd yn chwarae cymeriad addysgol wedi'i gwisgo fel darlithwraig mewn siwt ddu gyda ffeil yn ei llaw. Fe gyflwynodd hi'r ddarlith ar ffurf Power Point gan ddefnyddio ei dwylo yn ddi-baid i bwysleisio rhai pwyntiau yn ogystal ac ysgrifennu y pwyntiau pwysig hyn ar y siart bapur.

Wrth feddwl yn ôl i'r perfformiad uchod fe ystyriais yn fwy dwys yr hyn yr oedd arna i angen ei wneud er mwyn creu awyrgylch addysgol yn fy narn. Fe benderfynais y buasem ni, yr actorion, yn gwisgo cotiau gwyn fel rhai ar gyfer arbrofion gwyddonol gyda dillad plaen oddi tanodd i roi ychydig o statws i ni fel cymeriadau ar y set.

¹⁸ Hewlett, *An End to Isolation – Level 1*, Canolfan y Celfyddydau, 2009.

Hefyd roedd rhaid penderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio fy offer er mwyn cyflwyno'r darn mewn dull addysgol. Penderfynais yn y diwedd yn hytrach na thaflunio'r lluniau ar y wal y buasai'n fwy symbolaidd i'w taflunio ar y bwrdd gwyn ac yn hytrach nag ysgrifennu ar y siart bapur y buasai'n daclusach ysgrifennu ar y bwrdd gwyn o dan y lluniau a chael gwared o'r ysgrifennu cyn rhoi llun newydd i fyny.

Yr unig beth yr oeddwn i'n sicr ohono wrth osod y set oedd fy mod i eisiau i fy mhropiau gael eu gosod fel petaent yn rhan o arbrawf a bod popeth yn y man cywir fel arddangosfa o greiriau mewn amgueddfa. Roeddwn i eisiau i fy mhropiau gael eu gosod fel hyn oherwydd fy mod i'n teimlo eu bod yn ddarnau hanfodol o dystiolaeth i fy helpu i greu arbrofion ymchwiliol i mewn i fy hunan am fy olion iaith. Enghraifft dda o bropiau yn cael eu defnyddio mewn ffordd arbrofol i geisio disgrifio fy nheimpladau tuag at ddwyieithrwydd yw pan oedd Sian a Caron yn fy lapio mewn wadin, yna yn chwythu balw'n a'i byrstio cyn tynnu'r wadin oddi arna i. Yn ogystal â hyn roedd gan nifer o'r propiau a oedd yn y perfformiad, fel y tapiau, y mwclis a'r colur, ystyr sentimental i mi gan eu bod yn perthyn i fy ngorffennol fel plentyn. Cyfeiria Pearson a Shanks at farn Walter Benjamin ynglŷn â'r elfen sentimental hon sydd i'w chael mewn rhai o'n heiddo drwy ddweud: 'When we speak of something having sentimental value we are

referring to aura; the article means something to us because it evokes memories of a common history; both the article and we have shared a life.¹⁹

Oherwydd yr elfen sentimental hon y penderfynais ddefnyddio chwaraewr tâp i ddangos y tapiâu gwreiddiol yn cael eu chwarae yn fyw o flaen y gynulleidfa yn hytrach na chael y gerddoriaeth yn cael ei fwydo i mewn o du allan i'r set. Credaf hefyd wrth chwarae'r tapiâu fel hyn eu bod yn gweithio'n well o safbwynt creu naws addysgol. Wrth i'r tapiâu newid i CDs roeddwn yn dangos treigladau amser a'r ffaith ein bod ni'n newid i geisio dilyn technoleg newydd fel y dywed J. R Jones: 'Y gresyndod heddiw, mae'n wir yw ein bod wedi ein taflu yn llydan agored i ddylanwadau ym mywyd ein cyfnod *sydd* yn tarseilio ein ffurfiant.'²⁰

Roedd y set derfynol ar gyfer yr ystafell ddosbarth wedi'i threfnu drwy roi'r bwrdd gwyn yng nghefn yr ystafell, taflunydd yn y canol a'r gerddoriaeth ym mlaen yr ystafell ac fe benderfynais ddodi y propiau hollbwysig ar fyrddau arholi a oedd wedi eu gosod mewn trefn daclus yn y gofod. Yn ogystal â hyn roeddwn i'n gobeithio, efallai, y buasai rhai o'r gynulleidfa yn gweld y cysylltiad rhwng y byrddau arholi â'r ffaith eu bod hwy'n mynychu arholiad y funud honno. Hoffwn feddwl fod y ffordd symbolaidd hon o gyflwyno wedi atgoffa y gynulleidfa o'u gyrfa addysgol hwythau.

¹⁹ Pearson a Shanks, *Theatre/ Archaeology*, 95.

²⁰ Jones, *Prydeindod*, 21.

Y Corff

Ar ôl dewis ffordd o gyflwyno a meddwl am y set fe ddechreuais ddarllen drwy'r sgript er mwyn dechrau plotio'r golygfeydd ond roeddwn i'n teimlo fod y sgript eisiau rhywbeth ychwanegol i geisio dangos sut oedd y ddwy iaith yn effeithio arna i yn gorfforol a meddyliol a sut oedden nhw yn byw ynof fel person. Fel y dywed Shanks: 'Social experience is materially embodied'.²¹ Roeddwn i'n cael anhawster i ddisgrifio'r ymgorfforiad ieithyddol hwn mewn geiriau felly fe geisiais feddwl am ffyrdd eraill er mwyn adlewyrchu fy nheimpladau fel creu dawns neu ganu. Wrth i'r rhain beidio â gweithio fe ddechreuais dynnu lluniau o ddiagram o'r corff gan ysgrifennu y geiriau 'Saesneg' a 'Cymraeg' ar wahanol rannau o'r diagram er mwyn ceisio dangos sut oedd dwyieithrwydd yn effeithio arna i yn fewnol mewn gwahanol sefyllfaoedd wrth i mi dyfu. Er enghraifft ar adegau o fy mywyd lle roeddwn i'n teimlo fod yr iaith Gymraeg yn chwarae rhan flaenllaw yn fy mywyd, roeddwn i'n ysgrifennu y gair 'Cymraeg' dros y rhan fwyaf o fy nghorff ac ysgrifennu y gair 'Saesneg' ar un goes neu fraich.

Wrth feddwl sut y gallwn ddefnyddio y syniad hwn yn fy mherfformiad fe ddechreuais feddwl am yr hyn y dywedodd Jacques Lacan sef:

²¹ Pearson a Shanks, *Theatre/Archaeology*, 10.

"... I identify myself in language, but only by losing myself in it like an object." ²²

Fe sbardunodd hyn y syniad yn hytrach na thynnu llun o ddiagram ar siart bapur neu ei daflunio ar y bwrdd gwyn y buaswn i'n defnyddio fy nghorff fy hun fel enghraifft o ddiagram byw i ddangos fy nheimpladau ieithyddol a chymdeithasol mewnol i'r gynulleidfa. Cyfeiria Shanks at y corff drwy ddweud fod profiadau cymdeithasol wedi'u gwreiddio: '...in all the cognitive and emotional faculties and senses of the humanbody.'²³

Gan fod yna elfennau arbrofol, ymchwiliol, ac archeolegol i'r darn yn barod fe gefais syniad o wisgo siwt wen fel y rhai y mae'r heddlu fforensig yn eu gwisgo gan beintio'r geiriau 'Cymraeg' a 'Saesneg' ar y siwt fel sloganau.

Wrth i mi ddatblygu'r syniad yma ymhellach fe benderfynais gael rhagor o siwtiau ar gyfer cynrychioli bob un digwyddiad allweddol ieithyddol yr oeddwn i'n siarad amdano yn y darn gan beintio'r patrymau ieithyddol a oedd yn gweddu i'r digwyddiadau hyn ar y siwtiau. Yn lle peintio fy hun fe benderfynais gael fy nau gynorthwywr i fy mheintio fel petawn yn wrthrych er mwyn symblu fy mod i'n teimlo nad oes gan bobl reolaeth lwyr dros eu bywydau a bod elfennau o'r amgylchfyd o'n cwmpas o iaith i dapiau cerddoriaeth yn ein peintio ni fel unigolion wrth i ni dyfu. Mae Pearson a Shanks yn ymchwilio i mewn i'r syniad hwn fod pobl

²² Jones, *Body Art/ Performing the Subject*, 42.

²³ Pearson a Shanks, *Theatre/ Archaeology*, 10.

a phethau yn anwahanadwy mewn corff : 'And in a strong sense - we are not dealing with mixtures of people *and* things, but with *people-things* - the body as artefact, the artefact as constituting the cultural body, conduct and scenario defining the person.'²⁴

Wrth i'r gynulleidfa fy ngwylio'n cael fy mheintio gyda phaent coch i gynrychioli'r Gymraeg a glas i gynrychioli Saesneg, roeddwn i'n gobeithio y buasent yn gallu uniaethu â'r syniad yma o gael eu marcio gan iaith neu eu hamgylchfyd wrth iddynt hwy dyfu i fyny. Fel y mae Pearson yn ei ddweud '...for the body bears the marks of its history'.²⁵ Roeddwn i eisiau i'r ysgrifennu ar y siwtiau fod yn weladwy i'r gynulleidfa felly fe gefais y syniad o'u hongian hwy i fyny gyda phegiau gan greu'r ddelwedd o lein ddrillad a llinell amser. Credaf wrth i mi dynnu siwt oddi ar y lein, ei gwisgo, yna ei pheintio, wedyn dadwisgo a'i rhoi yn ôl ar y lein ei bod yn adlewyrchu yr elfen ailadroddus hon o ddysgu ac o brofi profiadau bywyd wrth i ni dyfu i fyny. Fel y sonia Pearson a Shanks: 'People too have life-cycles, display changes and marks of time and experience.'²⁶

Mae nifer o artistiaid gyda'u gwaith yn dod o dan y term 'Celf Berfformiadol' neu 'Celf Gorfforol' wedi defnyddio eu cyrff a pheintio i greu gwaith perfformiadol

²⁴ Pearson a Shanks *Theatre/ Archaeology*, 90.

²⁵ Gol.Heathfield. *Small Acts: Performance, the Millenium and the Marking of Time*,175.

²⁶ Pearson a Shanks, *Theatre/Archaeology*, 91.

fel yr wyf i'n ei wneud yn fy narn. Fe ddefnyddiai Jackson Pollock ei holl gorff gyda'i ffordd pyrotecnig o beintio.²⁷ Fe ddefnyddiai Yves Klein ferched byw fel ei frws paent ef gan eu peintio'n las ac yna gofyn iddynt bwysu eu cyrff ar gynfasau gwyn.²⁸ Mae Gunter Brus hefyd yn enghraifft arall o rywun a ddefnyddiai ei gorff a phaent yn ystod ei yrfa artistig.²⁹ Ond mae'n siwr mai'r perfformiwr mwyaf adnabyddus sydd yn defnyddio'i gorff fel cynfas dynol yw Franko B. Dywed Lyn Gardner: 'He turns his body and blood into a canvas and invites us to view it, not as a freak-show but as an object, a living painting, in all its vulnerable, ugly beauty.'³⁰ Mae Franko B drwy ei berfformiadau yn adlewyrchu ei gorff noeth fel un bregus ac efallai bod y gynulleidfa yn cael yr argraff hon wrth i mi droi fy nghorff yn gynfas arlunio, gorwedd i lawr, peidio siarad na symud a chael pobl eraill i fy mheintio. Credaf fod yr elfen fregus hon yn bodoli ym mhob un ohonom. Ond er bod yr elfen hon yn bresennol, y prif bwynt yr oeddwn i'n ceisio ei bwysleisio drwy wisgo a pheintio'r siwtiau oedd fod y patrymau ieithyddol mewnol a brofais wedi fy ngwneud i yr hyn ydwyf heddiw.

Er fy mod i'n gweld ychydig o debygrwydd rhwng fy ngwaith i a syniadaeth

Franko B o ddefnyddio'r corff fel y mae'n dweud: '... as a site of

²⁷ Jones a Stephenson, *Performing the Body/ Performing the Text*, 178.

²⁸ Jones, *Body Art/ Performing the Subject*, 86.

²⁹ Jones a Stephenson, *Performing the Body/ Performing the Text*, 146.

³⁰ Gwefan Franko B, Gardner, *Bloody Peculiar, Franko B: Artist or Masochist?* Guardian, 2001.

representation' ³¹ nid ydwyf yn rhy hoff o'r syniad o ddefnyddio'r corff noeth mewn perfformio. Oherwydd y farn hon roedd gweithiau Jasper Johns yn llawer mwy perthnasol i fy narn gan ei fod yn gwneud castiau o'r corff yn hytrach nag ymddangos yn noethlymun yn ei waith. Fel y dywed Jonathan Katz am ei waith: '...Johns's 1955 plaster cast paintings are important precisely because they engage the body in a way that is not premised on self-exposure (which I take to be a central premise of body art,...)' ³²

Y bwriad y tu ôl i fy siwtiau oedd iddynt edrych fel rhyw fath o gastiau neu groen tebyg i waith Johns i gynrychioli olion iaith fy nghorff. Yn ogystal â hyn roeddent yn gweithio'n wych i ddangos treigladau amser ac i symboleiddio'r ymgorfforiad o ddwyieithrwydd ar fy mywyd.

Mae Mary Kelly a Ana Mendieta hefyd yn enghraifft o artistiaid sydd yn defnyddio olion o'r corff yn eu gwaith. Mae Mary Kelly yn gadael dillad i gynrychioli'r corff anweledig ac mae Ana Mendieta yn gadael silwét o'i chorff fel hollt yn y ddaear. Sonia Amelia Jones am waith y ddwy artist gan ddweud: 'Both produce a stand-in for the body itself in order to explore the effects of subjectivity as well as the social process that inform it.' ³³ Rwy'n

³¹ Gwefan Franko B, Thorp, *Franco B*, 2008.

³² Jones a Stephenson, *Peforming the Body/ Performing the Text*, 171.

³³ Jones, *Body Art/ Performing the Subject*, 29.

gweld fy siwtiau i hefyd fel olion sydd yn cynrychioli'r corff a'r goddrych cymdeithasol sydd o dan sylw yw dwyieithrwydd. Daw hyn i'r amlwg ar ddiwedd fy mherfformiad lle'r ydw i'n mynd i nôl y siwt olaf sydd yn cynrychioli fy nghorff gan gwestiynu'r broses gymdeithasol sydd o fy mlaen: 'Tybed sut fydd y siwt yn edrych yn ystod fy ngham nesaf mewn bywyd. Yn sicr bydd y Gymraeg yn rhan ohoni.'³⁴

Dywed Rothko: "[p]aintings are skins that are shed and hung on the wal."³⁵ hynny yw fe gredai fel y trafodai Jones syniadaeth Harold Rosenberg fod peintio os ydyw'n weithred yn anwahanadwy o fywgraffiad yr arlunydd.³⁶ Artist arall sydd yn chwarae gyda'r syniad hyn o arlunio fel gweithred bywgraffiadol yw Phil Hansen. Yn ei waith *Influences* mae e'n peintio 30 o bobl sydd wedi effeithio ar ei fywyd un ar ben y llall ar ei dorso gan blicio'r cyfan i ffwrdd fel croen ar ôl iddo orffen.³⁷ Credaf fod y ddelwedd yma y mae Hansen yn ei greu yn eithaf tebyg i'r ddelwedd yr ydw i'n ei chreu gyda'r siwtiau gan fod fy nghorff innau yn cael ei beintio gyda dylanwadau ieithyddol bywyd a phob siwt yn cael ei thynnu fel croen oddi arnaf. Hoffwn feddwl fod y ddelwedd yma wedi gwneud i'r gynulleidfa gwestiynu eu hunain i weld a ydynt yn teimlo fod elfennau o'u bywyd

³⁴ Edwards, *Olion Iaith* 26.

³⁵ Jones a Stephenson, *Performing the Body / Performing the Text*, 178.

³⁶ Jones, *Body Art/ Performing the Subject*, 72.

³⁷ Gwefan Phil Hansen, *Influences* 2007.

hwy wedi cael eu peintio gan iaith a'u hamgylchfyd cymdeithasol. Fel y mae Ionesco yn ei ddweud: '...the individual is unique, defined by his difference, yet he is also the same as everyone else - a product of society, sharing the human condition with the rest of us.'³⁸

³⁸ Dolamore, *Ionesco: Rhinocéros*, 67.

Y Gofod

Felly ar ôl i mi feddwl am y syniad hwn o ddefnyddio siwtiau roeddwn i'n cael trafferth cydblethu y siwtiau i weddu gyda'r set addysgol, y straeon a'r sgetys ac felly fe benderfynais rannu'r set yn ddwy ystafell sef yr ystafell ddosbarth a'r ystafell siwtiau. Fe ail beintiais y llawr yn ddu ar gyfer yr ystafell ddosbarth gan beintio'r llawr yn wyn ar gyfer ystafell y siwtiau gan mai'r bwriad oedd iddi edrych fel stafell syml glinigol. Dywed Shanks: 'The past "as it was" or "as it happened" is an illusionary category, neither stable nor homogeneous.'³⁹ A dyma'r math o awryngylch yr oeddwn i'n ceisio ei greu sef ystafell freuddwydiol wahanol o ran edrychiad gan wrthgyferbynnu y lein ddillad, y siwtiau a'r slab metal gyda holl set a phropiau yr ystafell ddosbarth.

Yn wreiddiol roeddwn i eisiau i'r slab metal gael coesau er mwyn iddo edrych fel bwrdd arian ysbyty oherwydd roeddwn i eisiau parhau'r gyda'r elfen wyddonol fforensig drwy geisio creu y ddelwedd fod fy nau gynorthwyr yn arbrofi arna i fel petawn yn wrthrych archeolegol. Y bwriad oedd iddynt chwilio am effaith fewnol y ddwy iaith, Saesneg a Chymraeg ynddo i, mewn gwahanol gyfnodau yn ystod fy mywyd gan beintio'r canlyniadau y tu allan i fy siwtiau.

³⁹ Pearson a Shanks, *Theatre Archaeology*, 11.

Yn y diwedd roedd y slab yn rhy drwm i greu coesau iddo ac yn edrych yn lletchwith ar ddarn o *rostra* felly er mwyn cadw'r gofod yn glinigol roedd yn well ei leoli ynghanol y llawr gwyn. Un peth da a ddaeth o'i leoliad terfynol oedd fod pawb yn gallu gweld y geiriau yn cael eu peintio ar fy nghorff oherwydd fod y slab yn isel ar y llawr.

Wrth i ni ddechrau ymarfer y golygfeydd gyda'r siwtiau y peth cyntaf y sylwais arno oedd yr awyrgylch fflat a ddaeth wrth i ni weithio mewn distawrwydd yn yr ystafell siwtiau. Roeddwn i'n teimlo ei bod hi'n bwysig i mi beidio siarad a symud gormod yn y golygfeydd hyn gan fy mod i'n ceisio ymddwyn fel gwrthrych archeolegol neu ddiagram byw er mwyn cynrychioli unigolyn yn cael ei beintio gan fywyd. Fel y dywed Jones wrth iddi drafod syniadaeth Craig Owens: "The subject poses as an object *in order to be a subject*."⁴⁰ Ond er hyn roeddwn i'n teimlo fod golygfeydd y siwtiau angen rhywbeth ychwanegol er mwyn cydbwysu gydag awyrgylch byrlymus a bywiog golygfeydd yr ystafell ddosbarth. Felly er mwyn torri ar draws y distawrwydd fe benderfynais chwarae cerddoriaeth gwahanol ar gyfer bob cyfnod ieithyddol a oedd yn cael ei gynrychioli gan siwt. Wrth i mi chwilio am gerddoriaeth fe ddes ar draws hen dapiau ohonof yn chwarae ac yn darllen yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Fe feddyliais y buasai'r capsiwlau amser hyn yn berffaith er mwyn cymryd y gynulleidfa yn ôl i fy

⁴⁰ Jones, *Body Art/Performing the Subject*, 159.

ngorffennol, i'r amser hynny pan oeddwn i'n siarad ac yn ymddwyn fel plentyn. Credaf hefyd drwy chwarae tapiâu ohonof yn blentyn fy mod i'n dangos ychydig o fy mhroses dysgu wrth i mi ddod i ymdopi gyda'r ddwy iaith yn fy mywyd.

Fe geisiais ddangos y broses o ddysgu ail iaith yn un o fy sgetys drwy ddangos propiau i'r gynulleidfa a gofyn y cwestiwn 'Be' di hwn yn Saesneg?'⁴¹ ac yna ailadrodd eu hatebion yn Saesneg. Sonia Matthew Goulish aelod o'r grŵp perfformiadol *Goat Island* am y cam hwn mewn plentyndod drwy ddweud: 'One begins to imitate things and people and to find one's place in the world that way.'⁴² Yn ogystal â hyn credaf fod y tâp lle'r ydw i'n canu cân o'r ffilm Disney *The Little Mermaid* yn enghraifft dda o'r ffordd y mae plant yn gallu cael eu dylanwadu gan iaith sydd yn llawer mwy pwerus na'u hiaith eu hunain. Fel y dywed Linda Thomas: '...our attitudes are often influenced by conventionally held stereotypes of language forms and their speakers.'⁴³

Yn erthygl perfformiadol Matthew Goulish y mae'n cyfeirio at blentyndod drwy ddweud ei fod yn '...from-place, not a to-place.'⁴⁴ a chredaf fod y term yma yn crynhoi'r math o awryglch ac ystyr yr oeddwn i'n ceisio ei greu ar gyfer yr

⁴¹ Edwards, *Olion Iaith*, 18.

⁴² Goulish, "Memory is this", 15.

⁴³ Gol. Thomas, *Language Society and Power /An Introduction 2nd ed*, 205.

⁴⁴ Goulish, "Memory is this", 15.

ystafell siwtiau. Hynny yw ei bod hi'n ystafell lle mae'n bosib aros ynddi dros dro
er mwyn ail fyw hen brofiadau o'ch gorffennol.

Cydblethu a chloi

Roedd creu'r perfformiad yma yn sialens fawr i mi gan nad ydwyf erioed wedi gwneud prosiect mor fawr â hyn o'r blaen. Credaf fod fy sgript a'r arddull cyflwyno wedi cael ei ddylanwadau gan fy nghefnidir theatricalaidd a bod gennyf elfennau o arddull Brechtaidd yn fy narn. Enghreifftiau o'r arddull hwn yw y ffordd fyw yr oeddwn i'n defnyddio'r dechnoleg ar y llwyfan a fy mod i'n siarad yn uniongyrchol gyda'r gynulleidfa i geisio gwneud iddyn nhw deimlo'n rhan o'r digwydd. Fel y dywed Griselda Pollock: "...Brechtian distancing aims to make the spectator an agent in cultural production and activate him or her as an agent in the world."⁴⁵ Ond credaf yn y darn hwn fy mod i hefyd wedi torri drwy wahanfur theatrialiadd y darn gan fy mod i wedi cerdded yn ôl a mlaen oddi ar y set at y gynulleidfa i ofyn iddynt enwi propiau. Felly wrth ystyried hyn a'r ffaith fy mod i'n defnyddio fy nghorff yn wrthrychol er mwyn dangos teimladau mewnol, credaf fy mod wedi bod yn defnyddio'r corff mewn ffordd ôl-ddramataidd fel y dywed Hans-Thies Lehmann: 'While the dramatic theatre conceals the process of the body in the role, postdramatic theatre aims at the public exhibition of the body'.⁴⁶

⁴⁵ Jones, *Body Art/ Performing the Subject*, 25.

⁴⁶ Lehmann, *Postdramatic Theatre*, 166.

Dyma'r perfformiad cyntaf yr ydwyf wedi ei wneud lle nad oeddwn i'n chwarae rôl ond yn ymddwyn fel fi fy hun. Teimlaf, pe bawn i wedi chwarae cymeriad gwahanol, na fyddwn i wedi bod yn driw i ddeunydd fy nheulu a fy hunan. Fe ddaeth y teimlad hwn o gyfrifoldeb dros y deunydd hefyd wrth i mi gyfarwyddo Caron a Sian gan fy mod i'n ceisio dangos iddynt sut y buasai aelodau o fy nheulu wedi dweud y frawddeg o ran rhythm ac ystumiau corfforol. Dwi'n meddwl mai dyma beth oedd gwendid mwyaf fy mhroses sef fy mod i wedi datgysylltu fy hun o'r digwydd o ran perfformwraig ac wedi bod yn canolbwyntio ar gyfarwyddo y darn a chreu'r set. Oherwydd hyn, yn fy mherfformiad roedd gennyf ddiffyg hyder a chredaf mai dyma pam y cefais ychydig o fy ngeiriau yn anghywir gan nad oeddwn wedi trochi fy hunan yn ddigonol yn yr hyn yr oedd yn rhaid i mi ei wneud fel perfformwraig yn y gofod. Er hyn fel cyfanwaith, credaf fod y perfformiad wedi mynd yn dda a phetawn i gyda mwy o amser mi fuasai'r amser hwn wedi cael ei ddefnyddio i ymarfer fy rhan bersonol mewn ffrâm meddwl perfformio yn hytrach nag un cyfarwyddo.

Credaf fod fy mherfformiad yn ddarn o ymchwil perfformiadol gan fy mod wedi defnyddio'r cyfrwng perfformio fel chwyddwydr i archwilio sut y mae dylanwadau'r amgylchfyd yn cael effaith ar ddwyieithrwydd ac ar hunaniaeth yr unigolyn. Hoffwn feddwl ei fod wedi codi ambell gwestiwn am yr effaith y mae iaith a dwyieithrwydd yn ei gael ar normau cymdeithasol yr unigolyn. Gobeithiaf

hefyd fy mod i wedi dangos mewn nifer o wahanol ffyrdd fel y mae'n bosib trosglwyddo straeon ieithyddol o'r gorffennol i'r presennol drwy ddefnyddio fy nghorff fel bod presennol yn ogystal â gwrthrych neu ddiagram o'r gorffennol. Yn ogystal â hyn, roedd y perfformiad hwn yn dangos sut y mae'r iaith Gymraeg wedi chwarae rhan fawr wrth i mi fynd drwy brofiadau bywyd i sefydlu fy nheimpladau i o hunaniaeth a pherthyn sydd nawr yn rhan annatod ohonof. Fel y dywed Lisa Lewis: '...the Welsh language is a palpable form in the word-shapes in my mouth, resonating in my body, affecting my behaviour, even my relationship to the land, my definition of place.'⁴⁷

⁴⁷ Lewis, "Capel Pennant – the Place I Am In", 49.

Llyfryddiaeth:

Bal, Mieke, "Memory Acts: Performing Subjectivity" *On Memory: Performance Research*. Golygwyd gan Adrian Heathfield a Andrew Quick. Vol 5, No 3, December 2000, 102-114.

Dolamore, C.E.J. *Ionesco: Rhinocéros*. London: Grant and Cutler, 1984.

Edwards, Glesni, Mair. *Olion Iaith*. Heb ei gyhoeddi. Gorffennaf 2009.

Gorman, Sarah. "Archive Fever" *On Memory: Performance Research*. Golygwyd gan Adrian Heathfield a Andrew Quick. Vol 5, No 3, December 2000, 90-99.

Goulsh, Matthew. "Memory is this." *On Memory: Performance Research*. Golygwyd gan Adrian Heathfield a Andrew Quick. Vol 5, No.3, December 2000, 6-17.

Heathfield, Adrian, Golygydd. *Small Acts: Performance, the Millenium and the Marking of Time*. London: Black Dog, 2000.

Holmberg, Arthur, *The Theatre of Robert Wilson*, New York: Cambridge University Press, 1996.

Jones, Amelia. *Body Art/Performing the Subject*. Minneapolis; London: University of Minnesota Press, 1998.

Jones, Amelia a Andrew Stephenson. *Golygwyr. Performing the Body/ Performing the Text*. London: Routledge, 1999.

Jones, John Robert. *Prydeindod*. Llandybie, Sir Gaerfyrddin: Llyfrau'r Dryw, Christopher Davies, 1966.

Lehmann, Hans-Thies. *Postdramatic Theatre*. London and New York : Routledge 2006.

Lewis, Lisa. "Capel Pennant - the Place I Am In." *Openings: Performance Research*. Golygwyd gan Ric Allsop a David Williams. Vol 5, No 1, April 2000, 42-53.

Nettle , Daniel a Suzanne Romaine. *Vanishing Voices- The extinction of the world's languages*. Oxford: New York: Oxford University Press, 2000.

Pearson, Mike a Michael Shanks. *Theatre/ Archaeology*. London: Routledge, 2001.

Thomas, Linda a golygyddion eraill. *Language, Society and Power/An Introduction*, 2nd ed. London: Routledge, 2004.

Undrill, Guy. "Book Review" *On Memory: Performance Research*. Golygwyd gan Adrian Heathfield a Andrew Quick. Vol 5, No 3, December 2000, 133-137.

Perfformiad:

Hewlett, Davida. *An End to Isolation - Level 1, Canolfan y Celfyddydau*, Chwefror 19, 2009.

Rhaglen Deledu:

Colli iaith Agenda. Cyf: Owen Edwards. S4C, 10 Ebrill, 1991. Adran Sgrin a Sain, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

Rhaglen Radio:

Annwyl Gyfeillion Iaith Mam Cyf: Robin Williams, Radio Cymru, 28 Ebrill 1991. Adran Sgrin a Sain, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

DVD:

Centre for Performance Research, Aberystwyth. AUS-052, BighART,
Ngarpartji Ngarpartji - Project Video. Cynhyrchydd Creadigol: Alex Kelly.
Creawdwr dogfennol/Artist fideo: Suzy Bates, 2007.

Centre for Performance Research, Aberystwyth. AUS-053, BighART,
Ngarpartji Ngarpartji - Performance. Cyfarwyddwr a ysgrifennwr: Scott Rankin,
Perfformiwr allweddol: Trevor Jamieson. Belvoir St Theatre, 23 Ionawr, 2008.

Wê:

Finch, Jenna. *Live/Performance Artist/Poet*. Gorffennaf 10. <http://jennafinch.com/>

Ngarpartji Ngarpartji. Gorffennaf 10. www.ngarpartji.org

Gwefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Arddangosfeydd. *John Meirion Morris - Grymoedd*, 28 Chwefror-29 Mai 2009. Mehefin 3.

[http://www.llgc.org.uk/index.php?id=1513&no_cache=1&L=1&tx_ttnews\[Ps\]=1265744...](http://www.llgc.org.uk/index.php?id=1513&no_cache=1&L=1&tx_ttnews[Ps]=1265744...)

Gwefan Franco B, Franco B:Text, Thorp, David. *Franco B*. 2008. Hydref 16.

<http://www.franco-b.com/text4.htm>

Gwefan Franco B, Franco B:Publications, Gardner, Lyn. *Bloody Peculiar, Franko B: Artist or Masochist?* Guardian G2, 1 Fai, 2001:13. Hydref 16.

http://www.franko-b.com/press_2001_b.htm

Hansen, Phil. *Influences*, Ionawr 2007, Hydref 12.

<http://www.philinthecircle.com/influences.html>

ATODIAD

Sgript Olion Iaith gan *Glesni Mair Edwards*
Perfformwyr: *Glesni Mair Edwards, Caron
Llyr Williams, Sian Adam.*

Lluniau a daflunwyd yn y perfformiad
wedi eu rhifo o 1 i 17 gweler cefn yr atodiad.

Perfformiad MA

Olion Iaith gan Glesni Mair Edwards

Perfformwyr: Glesni Mair Edwards, Caron Llyr Williams, Sian Adam.

Heddiw gobeithiaf ddangos i chi sut mae dwy iaith yn byw mewn un corff a sut mae hyn yn effeithio arna i yn gorfforol ac yn feddyliol. Rwyf yn mynd i gyfleu hyn drwy siarad am brofiadau fy nheulu a fy hunan. Dyma ychydig o hanes tarddiad y ddwy iaith ynof fi:

Dyma lun o fy nhad. (1. Taflunio llun o fy nhad) Unig blentyn yw fy nhad. Iaith gyntaf fy nhad yw Saesneg. Roedd nain fy nhad yn dod o Efrog a'i daid yn dod o Wrecsam sef rhieni ei dad ac er mai Saesneg oedd iaith y teulu roedd hen hen hen daid Wrecsam yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf ond roedd yr iaith Gymraeg wedi hen ddiflannu o'r teulu erbyn i fy nhad gael ei eni.

Roedd ochr mam fy nhad yn llawer mwy Cymreig gan fod ei nain yn hanu o Langollen a theulu ei daid yn dod o Landderfel ger y Bala. Roedd nain a taid fy nhad ar ochr ei fam yn siarad Cymraeg gyda'i gilydd ond oherwydd dylanwad ardal ddiwydiannol gwaith dur Brymbo lle'r oeddent yn byw fe drodd fy hen nain

a thaid i siarad Saesneg hefo fy nain a gweddill y teulu ac erbyn i fy nhad gael ei eni doedd neb yn siarad Cymraeg yn ei deulu.

(2.Taflunio llun o Nain mam fy nhad)

Mae dylanwad yr iaith Gymraeg i'w glywed weithiau ar y ffordd mae nain, mam fy nhad yn siarad ac mae hi'n gallu siarad ychydig o Gymraeg oherwydd bod ei nain hi wedi siarad Cymraeg efo hi pan oedd yn blentyn. Wrth i Nain siarad Saesneg gellir clywed adlais o'r iaith Gymraeg yn yr hyn yr oedd hi'n ei ddweud e.e

Caron: They've had a sbon new car next door!

Neu pan mae hi'n cyfeirio at berthnasau dywed:

Sian: They belong to us.

Daw pythiau o Gymraeg i mewn i sgwrs nain bob hyn a hyn megis:

Caron: Www dyna ti bropor.

Sian : Paid â mynd yne!

Caron: O bwchain bach.

Weithiau mae Nain yn meddwl ei bod hi'n cofio'r Gymraeg ond yn anffodus mae hi'n camynganu. Byddai hi'n aml yn dweud wrthym ni y plant ein bod 'bendremynol'.

Tro arall mi fyddai hi'n defnyddio 'mae' yn lle 'ydi' wrth ofyn cwestiwn.

Caron: Mae bwyd yn barod?

A finnau weithiau pan oeddwn yn fach yn gofyn yr un fath a mam yn fy nghywiro i'n syth!

Dyma lun o Mam. (3.Taflunio llun o Mam) Mae Mam yn un o wyth o blant ac iaith gyntaf Mam yw Cymraeg. Er bod cymhlethdod iaith ar ochr teulu Dad mae teulu Mam yn llawer iawn mwy syml gan ei bod yn dod o gefndir ffermio yng Ngwynedd a Chymraeg yw'r iaith sydd wedi cael ei siarad ar y ddwy ochr i'r teulu ers cenedlaethau. Oherwydd hyn credaf fod yr holl storïau a dywediadau Cymraeg o ochr fy mam wedi cyfoethogi fy Nghymraeg pan oeddwn yn fach. Wrth feddwl yn ôl roedd nifer fawr o ddywediadau Nain a Taid Sir Fôn gyda dylanwad Beiblaidd arnynt.

(4.Taflunio llun o Nain a Taid rhieni fy mam)

Dysgais ddywediadau fel:

"Deud y gwir sy'n dda bob amser. Deud y gwir sy'n digio llawar."

Byddai nain yn cysuro person fyddai wedi cael ei drin yn annheg gan rywun arall gan ddweud na fyddai'r troseddwr "Ddim yn dod i ben da"

Dro arall byddai nain yn atgoffa aelod o'r teulu a fyddai wedi cael tro trwstan mai "tâl yn ôl" iddo fo neu hi fyddai hynny am iddo yntau wneud rhywbeth o'i le.

Pan fyddai gwirionedd yn dod i'r amlwg a pherson yn cael ei ddal am wneud rhywbeth drwg byddai Nain a Taid yn dweud:

"Cheidw'r diafol mo'i was yn hir"

Roedd diafol yn cael ei enwi pan fyddai Nain eisiau pwysleisio y dylem bob amserfod yn ufudd iddi hi a gwrando ar ei gorchmynion hi. Pan rybuddiodd fy nghefnder i beidio â mynd i lofft yr yd i chwarae rhag ofn iddo syrthio i lawr y grisiau cerrig- ni wrandawodd arni ac aeth yno i chwarae. Daeth i'r tŷ dan grio oherwydd ei fod wedi llosgi ei goesau yn y dail poethion a oedd yn tyfu ar waelod y grisiau. Ni chafodd lawer o gydymdeimlad gan Nain am iddo beidio â gwrando arni a dywedodd wrth fy nghefnder fod yn well ganddo fo wrando ar y diafol nag ar ei Nain a bod y diafol wedi deud wrtho:

Sian: Dos, dos yn dy flaen-does dim isio i ti wrando ar dy nain ac wedyn daeth y tu ôl i ti a dy wthio di mewn i'r dail poethion.

Glesni: Ateb diniwed fy nghefnder a oedd yn bedair oed ac yn ddieithr i'r math yma o ddysgeidiaeth oedd:

Caron: "Weles i ddim dyn afol yn unlle!"

Rhaid cofio mai 'afol' y mae pobl Sir Fôn yn ei ddeud nid 'afal'

Roedd gan Nain a Taid ofergoelion yn ymwneud â'r Sul hefyd megis:

Ei bod hi'n anlwcus i'r teulu chwarae cardiau ar y Sul

Neu

Ei bod hi'n anlwcus i wau neu i drin arian ar y Sul.

Mae mam wedi etifeddu rhai o'r dywediadau hyn ac yn eu defnyddio efo ni'r plant. Un dywediad y mae mam yn ei ddefnyddio yn bendant ar ôl Nain yw:

"Pwys ar y wadan"

Dw i'n cofio Mam yn dweud wrth fy mrawd bach am ei siapio hi.

Glesni: Tyrd Elis - pwys ar y wadan.

A'i ymateb o oedd:

Caron: Pa chwadan?

Dywediad arall y mae mam wedi' i etifeddu gan Nain ac yn ei ddefnyddio'n aml yw: "Chei di mo'r afal i'w fwyta ac i chwarae efo fo wyddost ti!"

Mae llawer o gymariaethau Nain wedi eu trosglwyddo i fy iaith i yn ogystal:

Byddai nain yn dweud fod person yn "byta fel mwtrin."

Bod person arall yn "ddiog fel ffwlbart."

Bod person arall yn "denau fel brân bren."

Bod person yn "edrych fel hen edlych."

Wrth siarad gyda fy ffrindiau ysgol roedd rhaid i mi addasu fy iaith neu ni fuasent wedi fy neall. Mae'n debyg y byddai sôn am rai o'r canlynol yn creu penbleth i ambell berson:

Dw i am wneud ffagl.

Mae'n amser i ti fynd am y ciando rwan.

Pasia'r twca na i mi gael torri'r bara.

Mi welais i o efo rhyw lafnas.

Wnei di dorri'r brwgaitis yna sydd wedi tyfu'n wyllt yn yr ardd.

Mae'r bwtias y gog yn ddel eleni.

(5. Taflunio llun o Mam a Dad yn y coleg)

Pan gyfarfu Dad â Mam yn y coleg roedd dad yn ymwybodol fod yr iaith Gymraeg yn mynd i fod yn rhan bwysig o'i fywyd felly fe benderfynodd ddechrau dysgu'r iaith. Cyn i Dad gyfarfod â Mam doedd ganddo ddim syniad fod yna ffasiwn beth â bandiau Cymraeg a radio Cymraeg ac roedd yn meddwl mai dim ond mewn trefi fel Abersoc a Cynarfn oedd yr iaith Gymraeg yn cael ei siarad. Ar ôl i Dad ddysgu Cymraeg fe sylweddolodd gymaint o enwau llefydd yr oedd wedi bod yn eu camynganu megis: Caron: Abermoddi.

Glesni: Abermorddu.

Caron: Gwysyllt.

Glesni: Gwersyllt.

Caron: Moltraeth.

Glesni: Malltraeth.

Caron: Penychain.

Glesni: Penychain.

Caron: Tremaydog.

Glesni: Tremadog.

Caron: Yr Agi.

Glesni: Yr Argae.

Wrth ddysgu Cymraeg yr oedd Dad yn cael agoriad llygad i ddiwylliant hollol newydd. Ond hefo pob iaith mae anawsterau cyfathrebu dyma rai o brofiadau

Dad:

Caron: Helo fy enw i yw Meic, rwy'n dysgu Cymraeg.

Sian: Robin, twll tin pob Sais. Ti'n dallt hynny?

Caron: Sori?

(Saib mlaen i'r sgetsh nesaf)

Glesni: Hia! ymmmmm ga i, o be ga i dwad.

Sian: Peint o cider a black.

Glesni: Na ma cider yn neud fi'n really bloated sti. Be ti am gael?

Sian: Dwi ffansi vodca a lime.

Glesni: O ia, gyfa i yr un fath, ga i ddau vodca a lime plis?

Caron: Dau vodca a lime juice.

Glesni: Ie, dau.

Caron: Ydych chi eisiau rhyw?

Glesni: Be?!

Caron: Ydych chi eisiau rhyw?

Glesni: Sori?!!!

Caron: What I'm trying to ask is do you want ice with your drinks.

Sian: Ice! Oh Rhew!!!

Glesni: We thought that you were asking us if we wanted sex !!!!

Caron: Sex!!!

Roedd Dad yn gwneud ei orau i siarad Cymraeg efo'r plant ieuengaf yn nheulu

Mam:

Sian: You do picture of llwynog for me here now!

Caron: Paid siarad Saesneg hefo fi Barri, dwi'n gallu siarad Cymraeg

Sian: You're a teacher so you're good with pictures.

Caron: Dyma ti.

Sian: (O dan ei wynt) Wel am lun gwael.

Tra oedd Dad yn trio ei orau glas i ddysgu'r Gymraeg, roedd Mam yn cael ei

thrafferthion ei hun gyda'r iaith:

Recordiad o mam. (6. 7. 8. Taflunio lluniau o Mam yn y Coleg)

"Roedd gadael ysgol a mynd i Brifysgol Bangor i astudio'r Gymraeg yn dipyn o sialens i mi. Er mai Cymraeg oedd iaith yr aelwyd a'r iaith yr oeddwn wedi arfer ei defnyddio wrth gymdeithasu roedd Cymraeg y coleg yn wahanol. Y tueddiad

gyda mi a'm cyfoedion oedd defnyddio geiriau Saesneg yng nghanol ein sgysiau. Er bod ein cystrawennau'n hollol gywir roedd hi'n naturiol i ni ddeud nad oeddem yn licio 'cauliflower', ein bod eisiau 'ice cream' i bwdin, i drafod beth welsom ar y 'television' ac i frolio ein bod wedi cael carped newydd yn y 'lounge'.

Ond wedi i mi ymuno â chriw o *Gymry Cymraeg* yn Neuadd John Morris Jones, roeddem i gyd yn siarad Cymraeg graenus ac yn gwneud pob ymdrech i beidio â defnyddio geiriau Saesneg. Pan ddychwelais adref i Ynys Môn ar ôl tymor yn y coleg, cefais wahoddiad i fynd allan gyda fy ffrindiau ysgol. Nid oedd yr un o'r criw yr ymunais â hwy wedi dewis mynd i'r coleg ond yn hytrach roeddynt wedi cael swyddi yn syth ar ôl gadael ysgol. Roeddwn innau yn parchu eu dewis hwy. Gallwch ddychmygu felly fel y cefais fy mrifo gan fy ffrind gorau o'r ysgol pan ddywedodd wrthaf yng nghanol sgwrs:

"Hei paid â dod i fama efo dy *Gymraeg* posh - just am dy fod ti wedi mynd i'r University i stydio'r *Gymraeg* dydy hynny ddim yn deud bod ishio i ti iwsio dy *Gymraeg* coleg efo ni,"

Roeddwn yn sylweddoli wedi hynny bod raid i mi addasu fy iaith yn ôl y gwmniaeth.

Yn ogystal â gwneud i mi fireinio fy iaith lafar, yr oedd bywyd coleg wedi gwneud i mi newid fy agwedd tuag at yr iaith *Gymraeg*. Dechreuais deimlo'n gryf dros ein hawliau fel *Cymry* i gael tegwch i'r *Gymraeg*. Yn ystod fy nghyfnod yn y coleg bu llawer o brotestio er mwyn cael darlithoedd drwy gyfrwng y *Gymraeg*. Fe

feddianwyd rhai o adeiladau'r coleg gennym ni y myfyrwyr Cymraeg fel rhan o'r protestio ac o ganlyniad cafodd dau fyfyrwr eu diarddel o'r coleg. Unwaith eto cefais fy siomi gan y criw o ffrindiau gartref pan ymunais â hwy dro arall a hwythau'n trafod arwyddion dwyieithog. Roeddynt yn cytuno â'i gilydd bod arwyddion dwyieithog yn boen ac yn eu drysu hwy'n llwyr. Dywedodd un ohonynt: " Dw i'n panicio rwan efo'r seins newydd' ma. Y peth cynta dw i'n neud ydi chwilio am y Saesneg achos dw i'm yn dallt y Gymraeg."

Roeddwn i'n deall mai newydd-deb yr arwyddion oedd yn creu dryswch iddynt ac nad eu bai hwy oedd eu bod wedi arfer gydag arwyddion uniaith Saesneg ond roeddwn i'n teimlo'n drist nad oeddent yn gallu bod yn fwy positif a bod yn ddiolchgar bod yr arwyddion newydd hyn yn rhoi statws i'r iaith Gymraeg. Yn anffodus doeddent ddim yn gallu gweld rhinweddau arwyddion dwyieithog na gwerthfawrogi yr holl ymgyrchu a fu er mwyn cael yr arwyddion hyn."

Roedd Dad ei hun yn sylwi ar y defnydd o eiriau Saesneg yn y Gymraeg:

Sian: Meic, Meic, stopia'r car a gofyn i'r ddynas ma lle mae'r eglwys neu mi fyddan ni'n hwyr i'r briodas.

Caron: Ie iawn. Helo rydym yn chwilio am yr eglwys?

Glesni: O ie ok, chi isio mynd straight ahead, o actually ffoliwch y car gwyn na.

Sian: Diolch.

Caron: Ffoliwch y car, ffoliwch y car I could have done better than that!

Weithiau roedd Dad yn camddeall rhai geiriau Cymraeg pwysig:

Sian: Hei Meic, dw i'n disgwyl!

Caron: Ie, ie, dw i'n dod rwân!

Sian: Na Meic, dw i'n diswyl!

Caron: Heddwen dw i'n dod rwân, paid â poeni dydi Asda ddim yn cau tan chwech.

Sian: Na Meic dwi'n disgwyl babi!

Caron: E! you're pregnant!

Erbyn i mi gael fy ngeni roedd Dad yn rhugl yn y Gymraeg a Chymraeg oedd iaith yr aelwyd. Felly dyma rai o fy mhrofiadau i yn tyfu i fyny mewn byd dwyieithog.

Dyma lun o Taid tad fy nhad. (9. Taflunio llun o Taid) Taid oedd y cyntaf i gyflwyno yr iaith Saesneg i mi pan yr oeddwn yn blentyn. Er fy mod i ar y pryd yn methu siarad gair o Saesneg roeddwn i'n dal i ffeindio ffyrdd o gyfathrebu gyda fe. Dw i'n cofio pan oeddwn i'n fach iawn yn lliwio lluniau gyda crayons wax ar fwrdd bach yn y lolfa fe dorrodd un o'r crayons ac es i â fo i ddangos i taid ei fod wedi torri. Tynnodd yntau ei lighter allan gan doddi'r crayon a'i osod yn ôl yn

un darn. Ers y foment honno roeddwn i'n gwybod bod Taid a finnau'n dallt ein gilydd.

Yn fy mlynyddoedd cynnar mi fyddwn i'n siarad Cymraeg hefo Taid ac yntau'n dyfalu be oeddwn i'n ei ddweud:

Glesni: Tyd i eistedd yn fama fo fi taid.

Caron: You want me to sit there do you.

Glesni: Ti'n hoffi'r mwclis yma.

Caron: That's very pretty.

Glesni: A beth am yr un yma.

Caron: Yes that's a nice one too.

Glesni: Mae gen i un melyn, gwyrdd, coch, glas a du.

Glesni: A rwan dwi'n mynd i neud i chdi edrych yn ddel iawn. Cer fel hyn taid.

Caron: Like this.

Glesni: Na, fel hyn.

Caron: Like this

Glesni: Ia, hwn wan, ie neis iawn Taid, rwân cau llygaid.

Caron: What you doing to me now?

Glesni: Paid poeni, lliw glas, Mam tyd i weld Taid.

Sian: Be tin neud rwan!

Glesni: Dyrrrrrrr!!

Sian: Wel neis iawn, (yn pasio drych i Taid).

Caron: Wel don't I look smashing!

Sian: I think you could pass like a lady any day Taid!

(Saib ymlaen i'r sgets nesaf)

Glesni: Mam ti wedi anghofio sôs coch.

Sian: O! Mi a i nôl peth i ti rwan.

Glesni: Na dwi'n iawn dwi'n gallu gofyn fy hun.

Glesni: Excuse me can I have some (saib) sows cowch plis?

Caron: (Y person yn edrych yn rhyfedd)

Glesni : Mam, be di sôs coch yn Saesneg?

Sian: Tomato sauce!

Glesni: Tomato sauce, plis.

Caron: (Pasio sôs coch iddi)

Roeddwn i'n cael cymysgedd go dda o ddiwylliant Saesneg a Chymraeg adref o gerddoriaeth i raglenni teledu. Roeddwn i'n mwynhau gwyllo Slot Meithrin a oedd yn dangos rhaglenni fel Wil Cwac Cwac, Sam Tân a Tŷ Chwith ar y teledu. A phan

yr oedd hi'n amser Penblwydd arna i neu un o fy mrodyr roeddwn i wrth fy modd yn clywed fy nghyfarchion yn cael eu darllen gan Martyn Geraint a'r enwog Wcw.

(10. Taflunio llun o Wcw)

Caron: Penblwydd Hapus mawr iawn i ti Glesni sydd yn 6 oed heddiw, swsus mawr gan Mam Dad a Ynyr dy frawd bach. Brechdan bara a sôs coch i ti. Roeddwn i hefyd yn hoff iawn o wyllo rhaglenni fel 'My Little Pony' a fideos Walt Disney fel 'Beauty and the Beast', 'The Rescuers' a 'The Little Mermaid'.

Dw i'n cofio pan oeddem yn mynd am dro yn y car roeddem i gyd yn gwrando ar dapiau Bryn Fôn, Huw Chiswell a Geraint Griffiths.

(Chwarae tâp Bryn Fon)

Ond er hyn, un o fy hoff dapiau pan oeddwn i'n blentyn oedd tâp pinc a gefais mewn bocs gyda fy disco Barbie un Dolig.

(Chwarae tâp Barbie).

Dyma sut o'n i'n teimlo yn ystod fy mlynyddoedd cynnar llawer o Gymraeg a'r sylweddoliad fod Saesneg yn bodoli.

(Gwisgo siwt un. Peintio Cymraeg yn bobman Saesneg wedi ei ysgrifennu ar un o fy nghoesau. Tâp ohona i'n darllen y llyfr 'Dwmpfen Malwoden' yn chwarae yn y cefndir.)

(11. Taflunio llun ohonof yn yr Ysgol Gynradd Ddwyeithog)

Ysgol Gynradd Ddwyeithog

Pan ddechreuais yn yr ysgol Gynradd ddwyieithog dyna pryd y sylweddolais i fod Saesneg yn iaith bwysig iawn a bod rhaid i mi ei dysgu os oeddwn i eisiau cyfathrebu a goroesi yn yr ysgol newydd gan mai Saesneg oedd iaith y buarth.

Dw i'n cofio dod adre o'r ysgol unwaith wedi upsetio gan ddweud wrth mam fod un o'r genod wedi dweud wrtha i:

Sian: Sorry Glesni but you're not allowed to play with us today.

A gofynnodd Mam i mi:

Caron: Wel pam nes di ddim deud wrthi bod chdi ddim isio chwarae hefo nhw beth bynnag.

Glesni: Wel mi nes i drïo ond doedd y geiriau Saesneg ddim yn dod allan yn ddigon cyflym.

Wedi hynny, ar ôl dod adref o'r ysgol mi fyddwn i'n dilyn Mam o gwmpas y tŷ gan godi gwrthrychau a gofyn:

Glesni: Be di hwn yn Saeneg? Be di hwn yn Saesneg? Be di hwn yn Saesneg?

(Mynd o gwmpas y gynulleidfa yn gofyn y cwestiwn uchod gan ddangos gwahanol brophiau iddynt)

Am y tro cyntaf yn fy mywyd roedd Saesneg yn bwysicach na Cymraeg.

(Gwisgo siwt dau. Peintio 'Saesneg' yn mhob man a 'Cymraeg' o gwmpas fy fferau.

Tâp caneuon Saesneg yn chwarae yn y cefndir)

Arfer â'r iaith Saesneg

(12. Taflunio llun ohona i'n chwarae gyda fy ffrindiau)

Wrth i mi ddod yn fwy hyderus hefo siarad Saesneg roeddwn i'n fwy tueddol o'i defnyddio mewn sefyllfaoedd lle doedd Cymraeg ddim yn mynd i gael fy mhwynt i drosodd. Buan iawn y sylweddolais fel ag y gwnes gyda fy ffrindiau di-Gymraeg

yn yr ysgol Gynradd bod raid defnyddio Saesneg gydag oedolion hefyd- yn enwedig os oedd fy mrawd bach yn cael cam.

Sian: Hello

Caron: Hello

Glesni: Hello

Sian: Well look at this little one isn't she adorable. Look at these beautiful curls and just look at these brown eyes oh she is beautiful and I love this pink frilly dress....

Glesni: And what about this little boy!!!

Sian: Oh yes, sorry he's very beautiful too. You've got a lovely brother.

Glesni: Yes, I know!

Roedd Saesneg wedi datblygu'n arf ddefnyddiol yn fy mywyd.

(Gwisgo siwt tri. Peintio 'Cymraeg' yn mhob man a 'Saesneg' yn cael ei ysgrifennu ar fy mraich dde. Tâp ohona i'n canu 'The Little Mermaid' yn chwarae yn y cefndir)

(13. Taflunio llun ohonof ym Mlwyddyn 6)

Ysgol Gynradd Benodedig Gymraeg, Blwyddyn 6

Pan oeddwn i ym mlwyddyn chwech fe symudais i ysgol benodedig Gymraeg gan ein bod ni wedi symud tŷ. Roedd mynd i ysgol lle'r oedd popeth yn cael ei wneud trwy gyfrwng y Gymraeg a lle roedd y Gymraeg yn cael ei siarad yn naturiol ar y buarth yn brofiad hollol wahanol i'r gystadleuaeth ieithyddol yr oeddwn wedi ei deimlo o'r blaen.

Am flwyddyn roeddwn i mewn mor o Gymreictod unwaith eto.

(Gwisgo siwt pedwar. Peintio Cymraeg yn bob man a Saesneg o gwmpas fy fferau.

CD ohona i'n canu mewn côr yn yr Ysgol Gynradd yn chwarae yn y cefndir)

(14. Taflunio llun ohonof yn yr Ysgol Uwchradd)

Ysgol Uwchradd

Pan symudais i'r ysgol uwchradd dyma pryd y dechreuais weld newid mawr yn agwedd fy nghyd ddisgyblion tuag at yr iaith Gymraeg. Roeddwn i wirioneddol yn drysu gweld plant a oedd wedi trosglwyddo o'r ysgol gynradd benodedig Gymraeg yn troi i siarad Saesneg hefo'i gilydd a rheini wedi arfer siarad Cymraeg yn yr

ysgol Gynradd. Pan oeddwn i'n siarad Cymraeg hefo rhywun yn aml mi fuaswn i'n cael hyn yn ateb:

Caron: Why are you speaking Welsh to me?

Neu

Sian: Stop speaking Welsh to me! Can't you speak English?

Un Nadolig fe roddais gardiau Nadolig Cymraeg i bawb yn y dosbarth ac roedd rhai o'r dosbarth yn gwneud hwyl am fy mhen oherwydd fy mod wedi prynu cardiau Cymraeg. Felly er mwyn bod yn rhan o'r dosbarth mi fyddwn yn rhoi cardiau Saesneg wedi hynny ac ysgrifennu Happy Christmas arnynt yn lle Nadolig Llawen.

Tra bod y mwyafrif o fy ffrindiau yn siarad Saesneg gyda'i gilydd roedd y rhan fwyaf ohonynt yn siarad Cymraeg gyda fi.

Glesni: Hei be am fynd i'r sinema dydd Sadwrn

Caron: Dydd Sadwrn yma, Oh aren't you working on Saturday?

Sian: Yes but I'm not working at night.

Caron: Oh ye I suppose clothes shops aren't open at night are they?

Glesni: Neu os di dydd Sadwrn ddim yn siwtio be am ryw bryd arall?

Sian: Na ma dydd Sadwrn yn iawn gin i.

Caron: What did you go and see last time again?

Sian: Oh, Batman.

Caron: Was it any good?

Sian: Yeah, I really enjoyed it.

Caron: Be oeddet ti'n feddwl mynd i weld?

Glesni: Wel, ma Harry Potter newydd yn dod allan.

Caron: You love Harry Potter don't you!

Sian: Oh shut up! It's good anyway.

Glesni: Ti'n ffansio Daniel Radcliffe mae'n siwr.

Sian: O! sut ti'n gwbod?

Caron: It's totally obvious, what are you like!

Glesni: Dw i'm yn gweld o'n ddel fy hun.

Sian: Anyway, ma mynd i'r sinema yn syniad da, dwi'n rhydd.

Caron: A finna hefyd.

Glesni: Reit ta awn ni nos Sadwrn.

Ond roedd cyfleoedd i mi ymgolli yn y Gymraeg yn yr ysgol Uwchradd drwy gymryd rhan yn Eisteddfod yr ysgol yn nghystadlaethau'r Urdd a pherfformiadau blynyddol yr ysgol.

Cymharwch fy mhrofiadau i â phrofiadau fy nghefnder a aeth i Ysgol Uwchradd yng Ngwynedd.

Recordiad o gyfweiliad gyda Gethin fy nghefnder:

Glesni: Pa fath o brofiadau ges di yn yr ysgol o ran siarad Cymraeg?

Gethin: Wel yn yr ysgol roedd y mwyafrif o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gyda'i gilydd. Wrth lwc mae ardal Sir Fôn yn ardal Gymreigaidd iawn felly mae pawb yn siarad Cymraeg. Un peth oedd wedi fy synnu oedd gweld athrawon yr adran Saesneg wedi dysgu Cymraeg sydd yn dangos ymdrech at yr iaith ac sydd yn beth braf i'w weld.

Glesni: Oeddet ti'n teimlo weithiau dy fod di o dan bwysau i siarad Saesneg efo dy ffrindiau?

Gethin: Nag on, oherwydd roedd pawb yn fy ngrŵp ffrindiau yn siarad Cymraeg gyda'i gilydd ac yn dod o deuluoedd Cymraeg. Rydw i'n cofio un achos tra'n siarad Saesneg mewn gwern Saesneg ac roeddwn i'n teimlo'n ymwybodol o fy acen Gymraeg ond braf oedd gweld fod pawb yn siarad gydag acen yr un fath.

Glesni: A beth am dy brofiadau ar ôl i ti adael yr ysgol Uwchradd?

Gethin: Wedi gadael ysgol Uwchradd a mynd i goleg addysg uwch gwelais newid mawr mewn disgyblion a oedd yn arfer siarad y Gymraeg yn newid i'r Saesneg. Er hyn ni newidiais i i siarad Saesneg roeddwn i'n dal i siarad Cymraeg â nhw. Wedi gadael y coleg nid ydwyf yn siwr os ydynt yn dal i siarad Saesneg neu erbyn hyn

wedi troi'n ôl i'r iaith Gymraeg. Rydw i wedi bod yn lwcus iawn - erioed wedi bod o dan bwysau i siarad Saesneg hefo neb.

(15a. 15b. Taflunio lluniau ohona i mewn cynhyrchiad o 'Oliver' gyda cwmni theatr Tic ac yn cael gwersi dawnsio gyda Adele Meads School of Dancing) Doedd gen i ddim gwrthwynebiad tuag at yr iaith Saesneg gan fy mod i y tu allan i'r ysgol yn dilyn diddordebau trwy gyfrwng Saesneg fel gwersi dawnsio ac roeddwn i'n aelod o gwmni theatr a oedd yn gwneud ei chynyrchiadau i gyd trwy gyfrwng Saesneg. Fe wnes i nifer o ffrindiau newydd a chael blynyddoedd o hwyl gyda'r ddau gwmni a doedd cyfathrebu yn Saesneg ddim yn creu unrhyw broblem i mi gan nad oedd y ffrindiau hyn yn gallu siarad Cymraeg. Yn ogystal â hyn roedd mam yn gweithio gyda dysgwyr ac yn dysgu disgyblion Uwchradd ac oedolion i siarad Cymraeg. Pleser oedd clywed y bobl hyn yn mwynhau siarad Cymraeg.

(Gwisgo siwt pump. Peintio hanner fy nghorff gyda'r geiriau Saesneg a'r hanner arall gyda'r geiriau Cymraeg. CD ohona i'n canu mewn côr yn yr Ysgol Uwchradd yn chwarae yn y cefndir)

(16. Taflunio llun o fy ffrindiau Coleg)

Prifysgol Aberystwyth

Tair blynedd o wneud fy ngradd oedd y tair blynedd mwyaf Cymreig o fy mywyd hyd yn hyn. Fe wnes i ffrindiau hollol newydd a oedd yn siarad Cymraeg ac roedd hi'n braf cael cymdeithasu a gwneud popeth yn y Gymraeg o ddydd i ddydd heb orfod teimlo fy mod i'n gorfod cyfiawnhau pam fy mod i'n dewis gwneud popeth drwy gyfrwng y Gymraeg dim cwestiynu a neb yn barnu.

(Sian a Caron yn fy lapio i mewn wadin wrth i mi siarad)

Roedd hi fel petawn i'n byw mewn swigen Gymreig gan fod pawb o fy nghwmpas yn dewis siarad Cymraeg oherwydd eu bod nhw wirioneddol eisiau ei siarad pawb yn ei siarad yn naturiol pawb yn mwynhau ac yn fy lapio i'n dynn mewn wadin o Gymreictod.

(Caron yn chwythu balwn)


Ar ôl i'r tair blynedd ddod i ben mae'n siwr ei bod hi'n hen bryd rhoi pin (Caron yn byrstio'r balwn) yn fy swigen gyfforddus ac fy ysgwyd i'n nôl i'r byd go iawn (Caron a Sian yn tynnu'r wadin oddi arna i) yn ôl i'r cwestiynu, yr esbonio, y steroteipio a'r brwydro dros hawliau'r Gymraeg.

(17. Taflunio llun o fy nheulu) Rydw i'n falch iawn o fy Nghymreictod a chredaf fod yr holl brofiadau a gefais yn ystod fy magwraeth wedi rhoi sylfaen gref i mi ac wedi fy nghynnal yn ystod fy ngyrfa ysgol a choleg. Rwyf mor falch o lwyddiant fy nhad fel dysgwr ac o gryfder ieithyddol fy mam. Ond nid yw magwraeth ar aelwyd Gymraeg yn ddigon i wneud i berson garu'r iaith- mae'n rhaid cael argyhoeddiad mewnol- mae'n rhaid i berson benderfynu'n bersonol ynglŷn â phwysigrwydd yr iaith Gymraeg iddo fo neu iddi hi. Mae llawer o elfennau yn gallu dylanwadu ar gredoau person ond yn y diwedd mae'n rhaid i'r unigolyn ddewis ei lwybr bywyd ei hun.

(Mynd i nôl y siwt olaf gan ei phlygu'n daclus a'i chario i du blaen y llwyfan)

Tybed sut fydd y siwt yn edrych yn ystod fy ngham nesaf mewn bywyd. Yn sicr bydd y Gymraeg yn rhan ohoni.

(Sian yn rhoi y tâp olaf ohona i'n siarad pan yn blentyn i ddiweddu'r darn.)



12.



13.



14.



15 a.



15 b.



16.



17.



